# Chwalu Chwedlau Gwaith Am Dâl!

Chwedl:

## ***Dydw i ddim yn gallu cael gwaith am dâl am fod gen i anabledd dysgu***

Chwalu chwedl:

Mae pobl ag anableddau dysgu â chymaint o hawl â phawb arall i gael tâl am y gwaith maent yn ei wneud. Mae yna lawer o gefnogaeth ar gael hefyd i'ch helpu chi i ddod o hyd i waith am dâl, a'i gadw.

Mae rhywfaint o gefnogaeth cyflogaeth/dod o hyd i waith ar gael drwy eich cyngor lleol (yn cynnwys gwasanaethau 'prif ffrwd' ac anableddau dysgu), ond mae yna hefyd lawer o gyfleoedd eraill a mathau o gefnogaeth, yn cynnwys:

- **Cymorth Cyflogaeth Dwys wedi'i Bersonoleiddio (IPES)** dolen

Mae IPES yn cefnogi pobl sy'n:

- *16 neu hŷn*
- *Yn ddi-waith ac yn byw yng Nghymru*
- *Yn anabl, gyda rhwystrau cymhleth i waith*
- *Yn gallu gweithio am 16 awr neu fwy bob wythnos*

- **Cymru'n Gweithio** dolen
- **Mencap** dolen
- **Cymdeithas Syndrom Down (Workfit)** dolen
- **Engage to Change** dolen
- I wybod am fwy o brosiectau cefnogi cyflogadwyedd yn eich ardal, gallwch fynd ar **wefan Dewis** dolen neu fe allwch gysylltu â'ch cyngor lleol neu gyngor gwasanaethau gwirfoddol.

Os byddwch chi angen unrhyw addasiadau neu gefnogaeth ychwanegol i wneud yn siŵr y bydd y gweithlu'n lle diogel a hygyrch i chi, gallwch hefyd wneud cais am gyllid 'Mynediad i Waith' dolen.

Gallwch hefyd siarad â'ch gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr cefnogi am sut y gall taliadau uniongyrchol helpu mewn ffyrdd tebyg.

Cadwch lygad am y logo Hyderus o ran Anabledd, sy'n dweud wrthych fod cyflogwr yn ymroddedig i fod yn gadarnhaol am recriwtio pobl ag anableddau. Gallwch hefyd annog cyflogwyr i gofrestru dolen.

Chwedl:

## ***Rydw i ar fudd-daliadau oherwydd fy anabledd, felly byddaf yn eu colli nhw'n awtomatig os byddaf yn cael swydd***

Chwalu chwedl:

Oherwydd bod yna dal lawer o wahanol fathau o swyddi y gallwch eu gwneud, os ydych yn cael ***Lwfans Cymorth Cyflogaeth (ESA)***, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn eich caniatáu i ymgeisio am '***Waith a Ganiateir***'.

Mae yna wahanol fathau o waith a ganiateir, yn dibynnu ar y math o waith rydych yn ei wneud, a'r math o gefnogaeth sydd gennych i wneud eich gwaith. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon dolen a chael cymeradwyaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau cyn i chi ddechrau swydd.

Gallwch holi eich gweithiwr cefnogi am help gyda hyn, gallwch fynd i'ch siop Cyngor Budd-daliadau leol, neu holwch yr Adran Gwaith a Phensiynau am gyngor. Mae Cyngor ar Bopeth yn egluro mwy am y gwaith a ganiateir yma dolen.

Mae pethau fymryn yn wahanol os ydych ar ***Gredyd Cynhwysol***. Does dim angen i chi wneud cais am waith a ganiateir yn yr un ffordd – yn hytrach, byddwch yn cael eich annog i wneud rhywfaint o waith, hyd yn oed am ychydig o oriau'r wythnos yn unig, os gallwch chi.

Nid yw budd-daliadau anabledd, yn cynnwys Lwfans Byw I'r Anabl (DLA) / Taliadau Annibynnol Personol (PIP) a lwfans gweini'n cael eu heffeithio gan eich enillion – ond bydd angen i chi **siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau cyn dechrau gweithio**, oherwydd efallai y caiff hyn ei ystyried yn newid amgylchiadau. Mae'n syniad da siarad gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau cyn gynted ag y gallwch chi, fel y gallwch wneud y penderfyniad gorau i chi.

Gall y cyfrifiannell 'Better Off' dolen hefyd eich helpu i weld sut y gall eich incwm newid os cewch chi hyd i waith am dâl. Ar ôl i chi roi eich manylion i gyd ac wedi cael eich canlyniadau, gallwch glicio ar 'change your earnings' ar waelod y dudalen, i weld sut y gallai eich incwm newid.

Chwedl:

## ***Os oes rhywun ar fudd-daliadau, dim ond £20 yr wythnos meant yn gallu ei ennill cyn i'w budd-daliadau ddod i ben.***

Chwalu chwedl:

Mae'r swm y gallwch ei ennill yn dibynnu'n fawr ar eich amgylchiadau. Mae yna wahanol fathau o waith a ganiateir, yn dibynnu ar y mathau o fudd-daliadau rydych yn ei gael, a'r math o gefnogaeth sydd gennych i wneud eich gwaith. Er enghraifft, os ydych ar Lwfans Cymorth Cyflogaeth (ESA) a'ch bod yn cael cefnogaeth i wneud eich gwaith gan rywun o gyngor lleol neu sefydliad gwirfoddol, sy'n gyfrifol am drefnu gwaith i bobl anabl, yna caiff ei alw'n ***'waith a ganiateir â chymorth'.*** Mae Cymdeithas Syndrom Down yn rhoi crynodeb cyfleus am y gwahanol fathau o fudd-daliadau a gwaith a ganiateir yma dolen.

Mae rheolau am faint o'ch enillion y gallwch eu cadw yn wahanol os ydych ar Gredyd Cynhwysol neu'r Lwfans Cymorth Cyflogaeth ac mae Cyngor Ar Bopeth yn egluro hynny yma dolen.

Os ydych yn cael budd-daliadau anabledd fel Lwfans Byw i'r Anabl, Taliadau Annibynnol Personol neu lwfans gweini, ni fydd eich enillion yn effeithio ar y swm rydych yn ei gael. Ond cofiwch, os ydych ar fudd-daliadau anabledd, mae'n rhaid i chi siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau am waith a ganiateir (fel yr uchod).

Gall y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau dolen roi cyngor ar eich amgylchiadau eich hun. Mae fel arfer yn well cael cyngor ar eich amgylchiadau personol eich hun, yn enwedig os ydych chi/eich aelwyd, yn cael nifer o wahanol fathau o fudd-daliadau.